**CYNGOR**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 a.m. ddydd Iau 10 Gorffennaf 2025 yn Neuadd Vivian, Canolfan Dylan Thomas, Abertawe

**Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:**
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans CB (Is-Ganghellor)
John Edge
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts

**Aelodau Cyngor PC:**
Dr Stuart Robb
Iwan Thomas
Deris Williams

**Aelodau Cyngor PCYDDS:**
Richard Bills
Gwyneira Davies
Yr Athro Kyle Erickson
Dr Deborah Hughes
Katrin Shaw
Jennifer Taylor

**Hefyd yn bresennol:**
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol

Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cynghorau
Dr Andrew Cornish, Prifathro, Colegau Cyfansoddol
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Dr Chris Marshall, Prif Swyddog Staff
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Yr Athro Mirjam Plantignga Pro Is-Ganghellor (Addysg)
Debra Williams, PIG (Cysylltiadau Masnachol a Busnes)
Catrin Beard, Cyfieithydd
Margaret Williams, Ysgrifennydd

Hugh Jones, Ymgynghorydd (ar gyfer 25.46)

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.41 Ymddiheuriadau | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Geraint Evans, Dr Tracy Cruickshank, Rowland Jones, Geraint, Dr Liz Siberry ac Emlyn Schiavone. |
| 25.42 Datgan Buddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (JCO356). |
| 25.43 Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad y Cadeirydd (JCO357).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor benodiad Richard Bills fel aelod annibynnol o 1 Gorffennaf 2025.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd ddau aelod myfyrwyr, Gwyneira Davies a Jennifer Taylor, i'w cyfarfod cyntaf a'u llongyfarch ar eu penodiadau.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd y byddai Justin Albert yn ymddeol fel aelod o Gynghorau PC a PCYDDS ar ddiwedd y mis. Dymunodd yn dda iddo ar ran y ddau Gyngor a diolchodd iddo am ei gyfraniad.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd fod Catrin Beard yn mynychu ei chyfarfod olaf fel cyfieithydd cyn iddi ymddeol yn yr haf. Dymunodd yn dda iddi a diolchodd iddi am ei gwaith rhagorol dros y blynyddoedd. Byddai Lynwen Davies yn ymgymryd â dyletswyddau cyfieithu o Fedi 2025.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd fod y CUC wedi dechrau adolygiad mawr o'i God Llywodraethu Addysg Uwch. Disgwylir i'r Cod diwygiedig gael ei gyhoeddi tua diwedd y flwyddyn nesaf. |
| 25.44 Adroddiad yr Is-Ganghellor | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |
| 25.45 Adroddiad Undeb y Myfyrwyr | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Undeb y Myfyrwyr (JCO359).<br><br>Cyfeiriodd y COO at gyllideb Undeb y Myfyrwyr 2025/26 a gafodd ei chynnig gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformio am gymeradwyaeth y Cyngor fel eitem ar wahân. Nid oedd cynnydd neu ostyngiad wedi'u cynnig, a byddai diffyg bach yn y gyllideb y byddai'r Brifysgol yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i'w reoli. Yn ogystal, darparodd ddiweddariad ar drosglwyddo myfyrwyr o Lambed i Gaerfyrddin a'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i gefnogi'r newid. |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.46<br>Adolygiad Effeithlonrwydd Llywodraethu – adroddiad terfynol | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad terfynol Adolygiad Effeithlonrwydd Llywodraethu (GER), drafft rhagarweiniol o'r hyn a ystyriwyd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym Mai 2025 (JCO361). Canolbwyntiodd yr adroddiad yn bennaf ar PCYDDS, ond roedd yn berthnasol yn ogystal i PC.<br>Wrth gyflwyno'r adroddiad, cadarnhaodd Hugh Jones ei fod wedi canfod bod gan PCYDDS brosesau llywodraethu da, wedi'u tanategu gan bolisïau priodol.  Cadarnhaodd yr adolygiad fod y Brifysgol wedi bodloni disgwyliadau Cod y CUC, gan nodi drwy'r broses ddadansoddi hon, nifer o feysydd i'w datblygu ymhellach.  Yn ogystal, mae wedi gwneud argymhellion ar gyfer sawl cam gweithredu arall a fyddai'n gwella llywodraethu neu'n ei wneud yn fwy effeithlon.  Roedd sawl un o'r argymhellion yn gysylltiedig â buddioldeb mabwysiadau rhai agweddau ar arddull y diwylliant llywodraethu i adlewyrchu'r newidiadau yn arddull arweinyddiaeth y Cyngor a'r Brifysgol.  Roedd y rhain wedi canolbwyntio'n bennaf ar recriwtio i ehangu'r ystod profiad proffesiynol a phersonol a lywiodd gwaith y Cyngor a sicrhau bod aelodau'n barod i ddarparu'r her adeiladol a oedd ei hangen.<br><br>Darllenodd y Clerc nodyn ffurfiol ynghylch yr adolygiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebu, nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod.  Roedd hi wedi nodi amseroldeb yr adolygiad a'i chefnogaeth am yr argymhellion a wnaed.<br><br>Ystyriodd yr aelodau'r argymhellion ynghylch recriwtio a chynyddu amrywiaeth.  Cadarnhaodd y Clerc fod y materion a godwyd yn gyson â'r gwaith a oedd ar waith eisoes drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebu a bod ymarfer tendro ar gyfer ymgynghorwyr recriwtio wedi dechrau.<br><br>Yn ogystal, ystyriodd yr aelodau rinweddau penodi Uwch Lywodraethwr Annibynnol (SIG).  Cadarnhaodd Hugh Jones fod y rôl hon, a hyrwyddwyd yn y Cod CUC, yn dod yn gynyddol gyffredin yn y sector AU ac yn gwasanaethu nifer o ddibenion.  Nododd y Clerc fod y Cyngor wedi ystyried y rôl ddwywaith, yn unol â gofynion y Cod, ond wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r penodiad.  Byddai'n adeg briodol i'w ystyried eto yng ngoleuni newidiadau arweinyddiaeth a'r symudiad cynyddol i benodi Uwch Lywodraethwyr Annibynnol yn y sector yng Nghymru.<br><br>Trafododd aelodau'r arsylwadau ynghylch ail-sefydlu a disgwyliadau.  Cytunent fod cyfleoedd ar gyfer trafodaethau anffurfiol yn bwysig ar gyfer meithrin perthnasoedd a deall sgiliau ac arbenigedd ei gilydd, ac y gallai'r rhain gael eu cynnwys yn yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Cyngor y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebu i'w hystyried yn fanwl, gyda chynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod Tachwedd 2025 y Cyngor. |
| 25.47 | DERBYNIODD y Cyngor ddiweddariad ar lafar ar waith Dyfodol Llambed. |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| Diweddariad ar Ddyfodol Llambed | Atgoffodd Pro Is-Ganghellor (Cysylltiadau Masnachol a Busnes) yr aelodau bod y Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol yn cynnwys cynrychiolwyr gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys gwleidyddion lleol, staff ac aelodau Cymdeithas Llambed. Y diben oedd nodi gweithgareddau newydd ac addysgol er mwyn dod â buddion cynaliadwy hirdymor i gampws Llambed. Derbyniwyd cyflwyniadau o syniadau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol ac roedd pob un wedi cael eu cydnabod a'u hystyried. Meysydd allweddol a awgrymwyd yn cynnwys cynnal cynadleddau a'r potensial ar gyfer cyrsiau byr a chyrsiau Cymraeg. Nododd Aelodau eu gwerthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan swyddogion ac anogodd fod y gwaith yn parhau gyda sefydliadau lleol a'r gymuned.<br><br>Adroddodd y COO ar y trafodaethau yn ddiweddar gyda Chyngor Sir Ceredigion a ganolbwyntiodd ar ddarparu addysg. Byddai'r aelodau'n cael eu hysbysu am ddatblygiadau. |
| 25.48<br>Adroddiad y Pwyllgor Academaidd | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2025 (JCO362).<br><br>DERBYNIODD y Cyngor:<br>(a) yr adroddiad tablau cynghrair Blynyddol (JCO383);<br>(b) ymateb y Brifysgol i'r Datganiad Myfyrwyr Blynyddol (JCO384);<br>(c) adroddiad blynyddol Strategaeth y Gymraeg (JCO385);<br>(d) adroddiad canlyniadau etholiadau Undeb y Myfyrwyr (JCO387);<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor God Ymarfer Undeb y Myfyrwyr 2025/26 (JCO386).<br><br>Rhoddodd y Pro Is-Ganghellor (Addysg) ddiweddariad i'r aelodau ar gynnydd ar Adolygiad y Cwricwlwm. Roedd adborth gan dimau'n parhau i fod yn gadarnhaol. Roedd swyddogion yn gweithio ar ffyrdd o rannu canlyniadau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda'r aelodau. Byddai Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn cymryd rhan yn y broses hefyd. |
| 25.49<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 21 Mai 2025 (JCO363).<br><br>Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg at y broses o fonitro ymatebion i adroddiadau archwilio mewnol, a oedd yn gweithio'n dda.<br><br>DERBYNIODD y Cyngor:<br>(a) y Gofrestr Risg Gorfforaethol (JCO338);<br>(b) Adroddiad Chwythu'r Chwiban Blynyddol (JCO389). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | CYMERADWYODD y Cyngor y cynnig i ddefnyddioBevan a Buckland i ymgymryd â'r archwiliadau anstatudol ar gyfer 2024/25.<br><br>Mewn perthynas â'r Gofrestr Risg, ymatebodd y COO a'r Pro Is-Ganghellor (Addysg) i ymholiadau'r aelodau mewn perthynas â'r risg yn ymwneud â chadw myfyrwyr. Roedd strategaeth glir ar waith ac roedd chynnydd da yn cael ei wneud, ond byddai'r camau gweithredu a gymerwyd i wella cadw myfyrwyr yn cymryd rhywfaint o amser i ymddangos yn y data. Roedd lefel y risg wedi cynyddu o ganlyniad i'w heffaith ar fusnes. |
| 25.50<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 8 Mai 2025 (JCO364).<br><br>DERBYNIODD y Cyngor gynllun datblygu a chadw diwygiedig y Cyngor (JCO391).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor:<br>(a) y protocol drafft diwygiedig ar ddefnyddio cyfieithu a chyfarfodydd ar-lein/hybrid (JCO390).<br>(b) yr ymagwedd at ddata EDI fel yr amlinellwyd yn 25.14 o adroddiad y Pwyllgor;<br>(c) Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau'r Cyngor am gyfnod pellach o ddwy flynedd (JCO392);<br>(d) yr argymhelliad y dylid mabwysiadu'r fformat peilot presennol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor fel arfer parhaol o 2025/26 ymlaen. |
| 25.51<br>Adroddiad y Pwyllgor Taliadau | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad anghyfyngedig cyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2025 (JCO365).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor Ddatganiad Polisi Cyflog Blynyddol 2023/24 (JCO393). |
| 25.52<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2025 (JCO366).<br><br>Darllenodd y Clerc nodyn ffurfiol o Gadeirydd RPC, nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod.<br><br>DERBYNIODD y Cyngor:<br>(a) adroddiad monitro Cynllun Blynyddol 2024/25 (JCO394a);<br>(b) adroddiad monitro Cynllun Strategol 2024/25 (JCO394b); |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | (c) adroddiad monitro KPI (JCO395);<br>(d) y diweddariad ar fentrau ystadau allweddol (JCO397);<br>(e) yr adroddiad cyllideb cyfalaf (JCO398).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor:<br>(a) y Polisi Gwaith Hyblyg (JCO396);<br>(b) cyllideb Undeb y Myfyrwyr 2025/26 (JCO399). |
| 25.53<br>Cynllun Blynyddol 2025/26 | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |
| 25.54<br>Strategaeth buddsoddi ac ariannu | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |
| 25.55<br>Diweddariad ariannol | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |
| 25.56<br>Cyllideb 2025/26 | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |
| 25.57<br>Adroddiad Pwyllgor y Senedd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2025 (JCO372).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor argymhelliad y Senedd i gyflwyno'r teitl Athro Emeritws i'r Athro Ian Walsh (JCO373). |
| 25.58<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion Anghyfyngedig cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2025 (JCO374b).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion Cyfyngedig cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2025 (JCO374c). |
| 25.59<br>Adroddiad blynyddol yr Is-gwmnïau | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddid blynyddol yr is-gwmnïau (JCO375).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y bwriad i ddechrau gwaith i ddiddymu'r cwmnïau'r canlynol:<br><br>(a) Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Deialog Rhyng-ffydd a Rhyngddiwylliannol (segur);<br>(b) Welsh American Academy Enterprises Ltd (segur)<br>(c) Eclectica Drindod (masnachu; mae gweithgarwch yn y cwmni yn isel ac yn gostwng), fel rhan o'r gwaith y cytunwyd arno eisoes gan y Cyngor i uno TCC a PCYDDS. |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | |
| 25.60<br>Penodiadau Bwrdd Coleg Sir Gâr | ADRODDODD y Clerc y byddai cynigion ynghylch aelodaeth a enwebwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Coleg Sir Gâr yn cael eu trafod yn y cyfarfod ym mis Medi.<br><br>CYTUNODD y Cyngor y byddai'r lle gwag presennol, yr oedd John Edge yn enwebai iddo, yn parhau tan yr adeg honno. |
| 25.61<br>Diweddariad Prevent | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Medr Mawrth 2025 ar fonitro'r Ddyletswydd Prevent (JCO378). |
| 25.62<br>Canlyniadau NSS: Dilyniant Medr | DERBYNIODD y Cyngor hysbysiad o newidiadau i broses ddilyniant NSS Medr (JCO379). |
| 25.63<br>Camau gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad camau gweithredu'r Cadeirydd (JCO380). |
| 25.64<br>Defnyddio Sêl y Brifysgol | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar ddefnyddio Sêl y Brifysgol (JCO382). |
| 25.65<br>Campws Mount Pleasant | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad ar derfynu amrywiaeth o gytundebau cydweithio rhwng y Brifysgol a Grŵp Addysg Abertawe (SEG) mewn perthynas â Champws Mount Pleasant, a fyddai'n golygu bod angen defnyddio'r Sêl yn ystod cyfnod yr haf (JCO404). |
| 25.66<br>Datganiadau o Ddiddordeb | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. |
| 25.67<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Medi 2025. |

Daeth y cyfarfod i ben am 1:50